# The NELSON TRIANGLE

## A Heritage Trail

The Kymin, The Nelson Garden and The Nelson Museum
Y Cymin, Gardd Nelson ac Amgueddfa Nelson



© Richard Silver





© Platform One

**Horatio Nelson,** born 29th September 1758, joined the navy at the age of 12, became a captain at 20, won his first command at 35 and was made a vice-admiral in 1801. Throughout his career his bravery and leadership won universal respect. His death, on 21st October 1805, during the Battle of Trafalgar, was mourned throughout the nation and he was given a state funeral.



Ymunodd **Horatio Nelson**, a anwyd ar 29 Medi 1758, â'r llynges pan oedd yn 12 mlwydd oed, daeth yn gapten pan oedd yn 20 oed, enillodd ei gomand cyntaf yn 35 oed ac fe'i gwnaed yn is-lyngesydd ym 1801. Trwy gydol ei yrfa enynnodd barch ar draws y byd am ei ddewrder a'i arweiniad. Bu farw ar 21 Hydref 1805 yn ystod Brwydr Trafalgar, galarwyd ar ei ôl ledled y wlad a chafodd angladd gwladol.

For further detail and opening hours please visit:
Am ragor o fanylion ac i gael gwybodaeth am yr oriau agor ewch i:

**www.nelsongarden.org.uk**
**www.nationaltrust.org.uk/the-kymin**
**www.nelsonmuseum.co.uk**




Map: © Platform One


Design/ Dylunio: Platform One 01600 714600
Print/Argraffu: AST Print Group Ltd
Date printed/ Dyddiad argraffu: February/Chwefror 2018

This leaflet is funded by/Ariennir y daflen hon gan:

heritage lottery fund LOTTERY FUNDED
wye valley dyffryn gwy
Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government


This Trail features the places in Monmouth associated with Lord Nelson.

Monmouth had presented The Freedom of the Town to Nelson in 1801, following his victories at the battles of The Nile and Copenhagen. When Nelson's party passed through Monmouth on 25th July 1802, on their way to Pembrokeshire, the Mayor invited them to return for a celebration. On their way back, they travelled to Monmouth via Chepstow, and stayed at the Beaufort Arms Inn on 18th August.

The following day, 19th August 1802, Nelson and his entourage drove by carriage to The Kymin for breakfast and then walked back to the town. The Mayor and Corporation gave a sumptuous dinner in his honour at the Beaufort Arms Inn and afterwards they relaxed in Colonel Lindsey's garden, now the Nelson Garden. The party left for Ross-on-Wye the following day, 20th August.

Charles Heath, a local printer and bookseller produced a booklet, which can be viewed in The Nelson Museum, recording Nelson's speech and the songs that Lady Hamilton sang at the dinner.

Mae'r Llwybr hwn yn cynnwys y mannau yn Nhrefynwy sy'n gysylltiedig â'r Arglwydd Nelson.

Cyflwynodd Trefynwy Ryddid y Dref i Nelson ym 1801, yn dilyn ei fuddugoliaethau ym mrwydrau Nîl a Copenhagen. Pan aeth gosgordd Nelson drwy Drefynwy ar 25 Gorffennaf 1802, ar ei ffordd i Sir Benfro, estynnodd y Maer wahoddiad iddynt ddychwelyd am ddathliad. Ar eu taith yn ôl teithiasant i Drefynwy drwy Gas-gwent ac aros yn nhafarn y Beaufort Arms ar 18 Awst.

Y diwrnod canlynol, 19 Awst 1802, gyrrodd Nelson a'i griw mewn cerbyd i'r Cymin i gael brecwast cyn cerdded yn ôl i'r dref. Darparodd y Maer a'r Gorfforaeth ginio moethus er anrhydedd iddo yn nhafarn y Beaufort Arms ac wedi hynny buont ymlacio yng ngardd Cyrnol Lindsey, a elwir erbyn hyn yn Ardd Nelson. Gadawodd yr osgordd am Ross-on-Wye y diwrnod canlynol, 20 Awst.

Cynhyrchodd Charles Heath, agraffwr a gwerthwr llyfrau lleol, lyfryn, y gellir ei weld yn Amgueddfa Nelson, sy'n cofnodi araith Nelson a'r caneuon y bu'r Fonesig Hamilton yn eu canu adeg y cinio.

*The Battle of Trafalgar by William Clarkson Stanfield*

**THE KYMIN** (A National Trust property)
The eighteenth century buildings and landscape of The Kymin are a concentrated treasure. It provides solitude, seclusion and stunning views across to the Brecon Beacons.

The Round House, built for a gentlemen's dining club, was completed in 1796. The adjacent Naval Temple, completed in 1801, boasts a painting of The Battle of the Nile and celebrates sixteen admirals and their naval victories.



Photo courtesy and © Ffotograff drwy garedigrwydd a © National Trust Photo Library/ Llyfrgell Ffotograffau



Photo courtesy and © Ffotograff drwy garedigrwydd a © Jean Kerrigan



Photo courtesy and © Ffotograff drwy garedigrwydd a © HMS Monmouth

**THE NELSON GARDEN**
This hidden, secluded walled garden in the centre of Monmouth is maintained by a small group of volunteers through the Nelson Garden Preservation Trust and is registered by Cadw as being a garden of special historic interest. The Nelson Garden contains a fine memorial pavilion, thought to date from the 1830s, where the seat in which Nelson sat at the banquet is located. A rare example of an eighteenth century hot-wall is the northern boundary for the Garden.





Photos of The Nelson Garden courtesy and © Ffotograffau o Ardd Nelson drwy garedigrwydd a © Grahame Thomas




**THE NELSON MUSEUM**
Horatio Nelson was born in Norfolk, died at sea, and is buried in St Paul's Cathedral – yet Monmouth is home to a magnificent collection of Nelson material. Find out about the origins of the collection, and about the life, loves, death and commemoration of the famous admiral through displays of weapons, pictures, fine ceramics, silver and glass, ship models and letters.





Photos courtesy and © Ffotograffau drwy garedigrwydd a © Monmouth Museum/ Amgueddfa Trefynwy

The Hero of Trafalgar, from a painting by/o baentiad gan W H Overend



**Y CYMIN**
(Eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
Mae adeiladau'r ddeunawfed ganrif a thirwedd Y Cymin yn drysor bychan. Mae'n rhoi tawelwch a phreifatrwydd a cheir golygfeydd trawiadol ar draws Bannau Brycheiniog.

Cwblhawyd y Tŷ Crwn, a godwyd ar gyfer clwb ciniawa gwŷr bonheddig, ym 1796. Yn Nheml y Llynges gyfagos, a gwblhawyd ym 1801, gwelir paentiad o Frwydr Nîl ac mae'n dathlu un llyngesydd ar bymtheg a'u buddugoliaethau llyngesol.

**GARDD NELSON**
Caiff yr ardd furiog guddiedig a thawel hon yng nghanol Trefynwy ei chynnal gan grŵp bychan o wirfoddolwyr drwy Ymddiriedolaeth Cadwraeth Gardd Nelson ac mae'n gofrestredig gan Cadw fel gardd o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Mae Gardd Nelson yn cynnwys pafiliwn coffa gwych, y credir sy'n dyddio o'r 1830au, a dyma leoliad y sedd yr eisteddodd Nelson ynddi yn ystod y wledd. Enghraifft brin o wal boeth o'r ddeunawfed ganrif yw ffin ogleddol yr Ardd.

**AMGUEDDFA NELSON**
Ganwyd Horatio Nelson yn Swydd Norfolk, bu farw ar y môr, ac mae wedi'i gladdu yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul - eto mae Trefynwy yn gartref i gasgliad gwych o ddeunyddiau cysylltiedig â'r llyngesydd. Gallwch ddysgu am darddiad y casgliad ac am fywyd, carwriaethau, marwolaeth a choffâd y llyngesydd enwog drwy arddangosfeydd o arfau, lluniau, darnau seramig, arian a gwydr cain, modelau o longau a llythyrau.

